

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cynghorydd R M I Shaw

Ward: Pontycymer Parti: Llafur Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2019. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrydd yn cynrychioli safbwyntiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Pontycymer ar 8 Mai 2017. Rwyf wedi cymryd y cyfrifoldeb hwn o ddifrif ac wedi ymdrechu i gynrychioli trigolion y Ward ac ardaloedd eraill hyd gorau fy ngallu. Mae hyn yn golygu ymgysylltu'n llawn gyda materion y Cyngor a chynrychioli'r ward yn y pwyllgor a'r cyngor, yn ogystal â bod yn weithgar iawn o fewn y gymuned. Rwyf yn falch o fy hanes gyda'r Cyngor ac yn credu bod hyn wedi fy helpu i fod yn fwy effeithiol.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol dros 100 o ymholiadau etholwyr pob blwyddyn. Mae'r rhain yn gyfrinachol eu natur ac yn ymdrin ag ystod o faterion o dai, iechyd ac amgylchedd i wastraff, amodau ffyrdd, marciau a gwelliannau a chyfleusterau ar gyfer plant.

I'm galluogi i gyfiawnhau fy rôl fel eich cynrychiolydd etholedig, rwyf wedi mynychu sawl gweithgaredd datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth o faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a fy ward.

Yn ychwanegol at fy nyletswyddau a chynrychiolaethau, rwyf wedi eistedd ar 6 pwyllgor, gan gynnwys sawl pwyllgor craffu, sy'n rhan bwysig iawn o rôl unrhyw gynghorydd sydd eisiau sicrhau bod yr awdurdod yn atebol. Yn ogystal â fy rolau ar bwyllgorau craffu, rwyf yn eistedd ar y Panel Gwerthuso Cyfrifoldeb am y Gyllideb ac yn Cadeirio'r Panel Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus.

Cefais fy mhenodi'n Brif Chwip a rheoli'r Grŵp Llafur yn llwyddiannus. Wedi imi beidio â cholli'r un bleidlais yn ystod fy nhymor, penderfynais i gamu lawr o'r dasg ar ôl cyfnod o un flwyddyn. Fi yw cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer Lluoedd y Cadetiaid a'r Lluoedd Wrth Gefn, yn cynnig presenoldeb allanol, a'r Cynrychiolydd Sir ar Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, yn eistedd ar dri phwyllgor, gan gynnwys Awdurdod. Nid yw presenoldeb nifer o'r rolau hyn yn cael eu nodi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ond rwyf yn cynnal lefel uchel o bresenoldeb ar gyfer pob un ymrwymiad.

Fi yw Trysorydd Cangen ar gyfer Unite the Union, Cangen Gorllewin Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am fy [rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau](#) i'w gweld drwy ddilyn y ddolen hon.

Gweithgaredd Etholaeth

Rwyf wedi ymrwymo i weithgaredd cymunedol ac yn ymdrechu i ymgysylltu a bod yn rhagweithiol ar bob lefel. Rwyf wedi gwirfoddoli a chymryd rhan mewn sawl gweithgaredd fel peintio lloches bysiau, chwynnu llwybrau ac ymdrechion ffisegol i geisio cadw llwybr y gymuned (GARw Valley Pathway ar Facebook) mor glir â phosibl.

Yn ychwanegol at hynny, rwyf hefyd wedi gweithio gydag...

Ysgol Gynradd Ffaldau, Clwb Pêl-droed Llangeinwyr - fel Llywodraethwr Awdurdod Addysg Lleol

Cadw'ch Gymru'n Daclus - yn wirfoddol

Sustrans - yn wirfoddol

Halo

Cyfoeth Naturiol Cymru

Rheilffordd Cwm Garw

Llangeinor Rangers

Canolfan Richard Price

REACH

Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

Clwb Tennis Cwm Garw

Timau Dibyniaeth Cyffuriau ac Alcohol Iechyd Meddwl Cymunedol

V2C

The Wallich

Heddlu De Cymru

Iechyd Meddwl, timau dibyniaeth cyffuriau a dibyniaeth alcohol

BAVO

Clwb Bowlio Pontycymer

Cyngor Cymuned Cwm Garw

Cangen Cwm Garw o'r Blaid Lafur

Safonau Masnach

Rheoli Plâu

Gwasanaethu Stryd

Cynllunio

Gwasanaethau Eiddo, a nifer

helaeth o unigolion

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi helpu ein cymuned.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Dechreuais y grŵp gwirfoddoli Llwybr Cwm Garw ac arwain prosiectau cynnal a chadw llwybr am dros flwyddyn. Sefydlais grwpiau gwirfoddoli ar gyfer clirio llwybr a chomisiynu adfywiadau meinciau cyhoeddus yn y pentref, gan gynnwys mainc Parc Lawrence y mae nifer yn ei garu ond yn cael ei hesgeuluso gan bawb.

Mae'r pentref wedi gweld nifer o welliannau traffyrdd fel gostwng palmentydd ac ail-wynebu. Er fy mod yn cydnabod bod hwn yn fater parhaus, mae nifer wedi eu blaenoriaethu hyd at ddwy flynedd yn gynt na'r bwriad

Es i'r afael ag ymgynghoriad cyhoeddus a chefais gefnogaeth ysgubol ar gyfer 'rhywbeth i'r bobl ifanc'. Rwyf wedi gweithio gydag arweinwyr ieuencid, Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu lleol a Halo i greu clwb ieuencid newydd - y cyntaf yng Ngarw Uchaf ers peth amser. Roeddem yn disgwyl tua 30 aelod, ond rydym wedi ein llethu - roedd 120 o bobl wedi cofrestru mewn 6 mis yn unig, a dros 240 flwyddyn yn ddiweddarach.

Gyda hynny'n sylfaen, mae clwb ieuencid peilot ar gyfer plant 12 i 13 mlwydd oed wedi ei sefydlu ym Mhontycymer, a rhaglen i gynnig cymwysterau drwy weithgaredd a heb arholiadau!

Mae'r elusen a sefydlais yng Nghwm Garw, sefydliad corfforedig elusenol Calon y cwm, nawr yn rheoli clybiau ieuencid ac wedi sefydlu Sied Ddynion yn y pentref. Mae hefyd yn rheoli Canolfan Gymunedol William Trigg ac yn ymwneud â dau brosiect sylweddol eraill.

Yn fy marn i, yn y flwyddyn hon o galedi parhaus, mae wedi bod yn bwysig i mi gymhwyso fy hun yn llawn yn y gymuned. Rwyf hefyd wedi ceisio ymwneud â'r holl glybiau chwaraeon er mwyn sefydlu ymgyrch i gael trigolion Cwm Garw'n fwy heini. Yn anffodus, ni lwyddodd hynny i ddwyn ffrwyth, ond rwyf wedi parhau i gynnig help i'r clwb bowlïo a'i gynlluniau i gymryd awenau'r cae bowlïo a dod yn hunangynhaliol. Er ei fod yn llwybr anodd, bydd yr unigolion nad ydynt yn ymgysylltu yn wynebu dyfodol heriol iawn; dymunaf yn dda iddynt.

Rwyf weithiau yn llwytho pethau ar gyfryngau cymdeithasol, a gallwch ddod o hyd i mi yn

<https://www.facebook.com/rod4pontycymer/>

neu

<https://www.facebook.com/Cllr.rod.shaw>

Gweithgareddau/Materion Eraill

Er bod gan y Garw harddwch naturiol sylweddol, nid yw Pontycymer yn ward sydd heb ei phroblemau. Mae fy atgyfeiriadau wedi cynnwys galwadau ffôn i sawl adran o fewn yr awdurdod lleol, ac i wasanaethau a rennir ar gyfer datrysiadau fel Safonau Masnach, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, rwyf yn gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar brosiect i rannu arfer gorau.

Roeddwn yn aelod o'r grŵp llywio ar gyfer 'Get Garw Active', prosiect a fydd yn cael ei gynnwys o fewn menter newydd, clwb ieuenctid ar gyfer plant rhwng 13-17 mlwydd oed.

Rwy'n gweithio ar hyn o bryd gyda Chlwb Bowlio Pontycymer ac yn cynorthwyo gyda'u cyfnod pontio drwy raglen Trosglwyddo Ased Cymunedol.

Mae fy ngwaith fel llywodraethwr ysgol, cadeirydd sawl grŵp cymunedol a chysylltiadau gyda chlybiau lleol ac unigolion yn helpu i lywio fy ngweithgareddau.

Byddaf yn parhau i wasanaethu trigolion y ward, er nodir pe bai'r Comisiwn Ffiniau yn derbyn cynnig y Cyngor Cymunedol i rannu Pontycymer yn ei hanner, ni fydd modd cynnal y lefel o gefnogaeth mae nifer wedi ei mwynhau.

Cynghorydd R M I Shaw Dyddiad: 25/11/2019